Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG45526**

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion

# Ardrethi Annomestig

Ymgynghoriad Technegol ar Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 drafft - Crynodeb o'r ymatebion

4 Tachwedd 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-993-5

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad technegol ar Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 drafft

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais i gael fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth:
Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGFR.Ymgyngoriadau@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y dogfennau ymgynghori:

https://llyw.cymru/rheoliadau-syn-diwygior-system-apelio-ar-gyfer-ardrethi-annomestig-yng-nghymru

# Cynnwys

Cynnwys .... 3
Rhagymadrodd .... 4
Cynigion .... 4
Ymgysylltu .... 5
Trosolwg o'r ymatebion .... 5
Crynodeb o’r ymatebion .... 5
Y camau nesaf .... 9
Atodiad A: Rhestr o’r ymatebwyr .... 11

## Rhagymadrodd

1. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori eisoes ar gynigion i ddiwygio'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig, rhwng 17 Hydref 2017 a 9 Ionawr 2018. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried gwahanol agweddau'r system yng Nghymru a rhoi eu barn am newidiadau posibl i'r agweddau canlynol.

   - Gwella'r broses apelio
   - Cofrestru ar gyfer y broses apelio
   - Cyfnodau amser ar gyfer pob cyfnod
   - Darparu gwybodaeth
   - Ôl-ddyddio apelau
   - Dirwyon (cosbau sifil)
   - Ffioedd apelio
   - Rôl Tribiwnlys Prisio Cymru.

2. Un o'r negeseuon allweddol a ddeilliodd o’r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd na ddylid gwneud unrhyw newidiadau hanner ffordd drwy restr ardrethu annomestig (rhwng ailbrisiadau) ac mai'r amser a ffefrir ar gyfer newidiadau fyddai dechrau'r rhestr newydd nesaf, a oedd ar y pryd wedi’i gynllunio ar gyfer 1 Ebrill 2021. O ganlyniad i bandemig y coronafeirws, mae'r ailbrisiad nesaf wedi cael ei aildrefnu ar gyfer 1 Ebrill 2023.

3. Ar 29 Mawrth 2022, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio ardrethi annomestig yn ystod tymor y Senedd gyfredol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i symud tuag at ailbrisiadau amlach. Bydd newidiadau i'r system apelio, sy’n cynnwys mabwysiadu ar gyfer Cymru y platfform digidol a gyflwynir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn ffordd allweddol o alluogi’r amcan hwn, gan sicrhau bod talwyr ardrethi yng Nghymru yn gallu elwa ar welliannau parhaus.

4. Ymgynghoriad technegol oedd hwn ar Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023 drafft ('y Rheoliadau drafft'), a fydd yn darparu ar gyfer mabwysiadu platfform digidol Asiantaeth y Swyddfa Brisio i Gymru a nifer bach o newidiadau ychwanegol i'r trefniadau ar gyfer apelau i Dribiwnlys Prisio Cymru.

5. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch cymhwyso’r Rheoliadau drafft yn deddfwriaethol ac yn ymarferol. Roedd ar agor am gyfnod o 12 wythnos. Dim ond i Gymru y mae'r ymgynghoriad yn berthnasol.

## Cynigion

6. Gweinyddir y system apelau gan ddau sefydliad annibynnol, a’r naill a’r llall yn gyfrifol am wahanol gamau o'r broses. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (‘yr Asiantaeth’) yn gyfrifol am brisio a rhestru hereditamentau ar gyfer ardrethi annomestig, gan gynnwys ystyried cynigion gan dalwyr ardrethi sy'n credu y dylid newid eu prisiad. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (‘y Tribiwnlys’) yn gyfrifol am

apelau, pan na cheir cytundeb rhwng trethdalwr a'r Asiantaeth mewn perthynas â newid arfaethedig i brisiad.

7. Mae camau'r broses a ategir gan blatfform digidol yr Asiantaeth yn golygu bod cysyniadau newydd yn disodli'r broses bresennol. Bydd trefn gosbau hefyd yn cael ei chyflwyno, gan ganiatáu rhoi dirwyon am ddarparu gwybodaeth y gwyddys ei bod yn ffug. Mae'r newidiadau y mae angen eu gwneud i blatfform apelio'r Tribiwnlys yn fwy cyfyngedig. Bydd y seiliau, y broses, a'r terfynau amser ar gyfer gwneud apêl yn cael eu sefydlu. Bydd cyfyngiadau hefyd yn cael eu gosod ar ddarparu tystiolaeth newydd yn ystod y cyfnod apelio. Ni fydd y trefniadau cyffredinol i'r Tribiwnlys ymdrin ag apelau yn newid.

## Ymgysylltu

8. Gwahoddwyd barn fel rhan o gyfnod ymgynghori 12 wythnos rhwng 19 Gorffennaf a 11 Hydref 2022. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgyngoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu Saesneg.

## Trosolwg o'r ymatebion

9. Cafwyd cyfanswm o 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd chwech ohonynt gan gyrff cynrychioladol neu ymgynghorol ac roedd un yn gan Dribiwnlys Prisio Cymru. Roedd 17 o'r ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw.

10. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

## Crynodeb o'r ymatebion

11. Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr; yn hytrach mae'n nodi'r prif themâu. Ni atebodd un ymatebydd y cwestiynau ymgynghori unigol, ond rhoddodd farn ehangach yn lle hynny.

**C1. A yw'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ynghylch  y weithdrefn ar gyfer 'gwirio'?**

12. Roedd saith o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder, yn amodol ar sylwadau pellach mewn rhai achosion. Roedd tri a ymatebodd o'r farn nad ydynt yn rhoi eglurder, ond ni wnaethant roi llawer o sylwadau.

13. Roedd tri ymatebydd yn croesawu sicrhau bod y Rheoliadau drafft yn gyson â'r rhai sy'n gymwys yn Lloegr, er mwyn rhoi cysondeb i dalwyr ardrethi ac asiantau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd dau o'r rhain eu bod o'r farn fod y terfyn amser o 12 mis i'r Asiantaeth gwblhau gwiriad yn rhy hir.

14. Rhoddodd tri ymatebydd sylwadau ehangach ar weithredu'r weithdrefn a chyfnewid gwybodaeth gyda'r Asiantaeth, yn hytrach nag ar eglurder y

Rheoliadau drafft. Nododd un ymatebydd y cyfrifoldeb ar dalwyr ardrethi i ddarparu neu gadarnhau gwybodaeth am eu heiddo ac roedd o'r farn y gallai hyn fod yn heriol i fusnesau bach.

**C2. A yw'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ynghylch y weithdrefn ar gyfer 'her'?**

15. Roedd chwe ymatebydd yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder, yn amodol ar sylwadau pellach mewn rhai achosion. Roedd tri a ymatebodd o'r farn nad ydynt yn rhoi eglurder, ond ni wnaethant roi llawer o sylwadau. Rhoddodd un ymatebydd sylwadau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y crynodeb isod.

16. Roedd tri ymatebydd yn croesawu sicrhau bod y Rheoliadau drafft yn gyson â'r rhai sy'n gymwys yn Lloegr, er mwyn rhoi cysondeb i dalwyr ardrethi ac asiantau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd dau o'r rhain eu bod yn credu bod y terfyn amser o 18 mis i'r Asiantaeth wneud penderfyniad ar her yn rhy hir. Awgrymodd un ymatebydd y dylai terfynau amser ychwanegol fod yn berthnasol i gamau canolraddol yn y broses, megis pan fo'r Asiantaeth yn gwrthod her anghyflawn.

17. Rhoddodd tri ymatebydd sylwadau ehangach ar weithredu'r weithdrefn gan yr Asiantaeth, yn hytrach nag ar eglurder y Rheoliadau drafft. Nododd un ymatebydd y cyfrifoldeb ar dalwyr ardrethi i ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu her ac awgrymodd y dylai fod mwy o ddull gweithio mewn partneriaeth gyda'r Asiantaeth.

**C3. A yw'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ar y weithdrefn ar gyfer gosod cosb am ddarparu gwybodaeth ffug yn fwriadol, yn ddi-hid neu'n ddiofal?**

18. Roedd saith o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder, yn amodol ar sylwadau pellach mewn rhai achosion. Roedd tri a ymatebodd o'r farn nad ydynt yn rhoi eglurder, ond ni wnaethant roi llawer o sylwadau. Holodd un o'r ymatebwyr hyn sut y byddai gwybodaeth sy'n anwir mewn manylyn perthnasol yn cael ei diffinio.

19. Rhoddodd rhai ymatebwyr sylwadau ehangach ar weithredu'r drefn gosbau gan yr Asiantaeth. Dywedodd dau fod cosbau'n briodol ar gyfer darparu gwybodaeth ffug yn fwriadol, ond y byddai'n bwysig ystyried y gwahaniaeth rhwng hyn a chamgymeriadau anfwriadol, wrth benderfynu a ddylid rhoi cosb ai peidio. Dywedodd un y gallai rhai talwyr ardrethi gael eu rhwystro rhag cymryd rhan yn y broses oherwydd ofn am gosbau.

**C4. A yw'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ynghylch y weithdrefn ar gyfer gwneud apêl i Dribiwnlys Prisio Cymru?**

20. Roedd pum ymatebydd yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder, yn amodol ar sylwadau pellach mewn rhai achosion. Roedd tri o'r ymatebwyr o'r farn nad ydynt yn rhoi eglurder, ac awgrymodd un ohonynt newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r eglurder. Ailadroddodd dau ymatebydd sylwadau ehangach ar weithredu camau cynharach yn y broses.

21. Ym marn Tribiwnlys Prisio Cymru, pan wneir darpariaeth ar gyfer apelau hwyr i'w hystyried o dan amgylchiadau penodol, dylid egluro mai Llywydd y Tribiwnlys fyddai'n penderfynu a fydd apêl o'r fath yn cael ei hystyried. Gofynnodd y Tribiwnlys hefyd am ddarpariaethau rheoli apelau ehangach a fyddai'n eu galluogi i nodi sut y byddant yn rheoli elfennau o'r broses apelio nad ydynt yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau. Byddai'r rhain yn debyg i ddarpariaethau cyfatebol sy'n berthnasol i Dribiwnlys Prisio Lloegr, y mae Tribiwnlys Cymru o'r farn eu bod yn allweddol er mwyn i gam apelio'r broses ddiwygiedig weithio'n dda.

22. Rhoddodd tri ymatebydd sylwadau ehangach ar weithredu'r cam apelio, yn hytrach nag eglurder y Rheoliadau drafft. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau am bwysigrwydd rhoi gwybod i dalwyr ardrethi sut i wneud apelau, o ystyried na fyddant yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r Tribiwnlys. Roedd pedwar o'r ymatebwyr yn croesawu peidio â chodi ffioedd am wneud apelau.

**C5. A yw'r Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder ynghylch y cyfyngiadau ar dystiolaeth newydd a dderbynnir mewn apêl?**

23. Roedd pum ymatebydd yn cytuno bod y Rheoliadau drafft yn rhoi eglurder, yn amodol ar sylwadau pellach mewn rhai achosion. Roedd dau ymatebydd o'r farn nad ydynt yn rhoi eglurder, ond ni wnaethant roi sylwadau pellach. Rhoddodd tri ymatebydd sylwadau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y crynodeb isod.

24. Dywedodd tri ymatebydd y dylai ystyr amgylchiadau eithriadol ar gyfer derbyn tystiolaeth newydd gael ei diffinio, neu na ddylai fod mor gul fel ei bod yn eithrio gwybodaeth nad oedd yn hysbys yn gynharach. Dywedodd un o'r rhain hefyd bod rhaid egluro mai'r Tribiwnlys yn hytrach na'r Asiantaeth sy'n gallu penderfynu ar dderbynioldeb tystiolaeth newydd yn y cam apelio. Dywedodd y Tribiwnlys y byddai'r darpariaethau rheoli apelau ehangach y gofynnir amdani yn ei alluogi i nodi sut y bydd yn rheoli'r broses o dderbyn ceisiadau i gyflwyno tystiolaeth newydd.

25. Dywedodd y Tribiwnlys hefyd y byddai'r Rheoliad drafft sy'n ymdrin â threfniadau cyffredinol ar gyfer tystiolaeth yn y cyfnod apêl yn ddiangen yn rhannol ac y gallai arwain at ailadrodd rhai o'r camau yn y cam gwirio. Awgrymodd gynnwys darpariaethau yn eu lle a fyddai'n ymdrin â thystiolaeth a chyflwyniadau, ac y gellid atgynhyrchu'r darpariaethau sy'n berthnasol i Dribiwnlys Prisio Lloegr ond gan wneud newidiadau iddynt.

26. Rhoddodd tri ymatebydd sylwadau ehangach ar ba mor gyflawn yw'r dystiolaeth, yn hytrach nag eglurder y Rheoliadau drafft. Roedd y rhain yn cynnwys barn y dylai'r Asiantaeth geisio sicrhau bod gwybodaeth yn gyflawn cyn clirio'r cam gwirio ac y byddai rhai amgylchiadau lle y gallai fod angen tystiolaeth ychwanegol gan y naill ochr neu'r llall mewn apêl.

**C6. A oes unrhyw faterion eraill yn codi o ran cymhwyso'r Rheoliadau drafft yn ymarferol?**

27. Atebodd wyth o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd un ymatebydd ei bod yn ddefnyddiol y bydd y Rheoliadau drafft yn galluogi'r Asiantaeth i weithredu mewn modd cyson yng Nghymru a Lloegr. Nodwyd y bydd talwyr ardrethi a chynghorwyr nad ydynt eisoes yn gyfarwydd â'r dull gweithredu yn gofyn am arweiniad i sicrhau eu bod yn gallu ei ddilyn.

28. Nododd y Tribiwnlys fanylion ychwanegol mewn perthynas â’i gais am bwerau ehangach i reoli apêl. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at y darpariaethau perthnasol sy'n gymwys i Dribiwnlys Prisio Lloegr, yr oedd yn ystyried ei bod yn briodol eu hatgynhyrchu, gyda diwygiadau, ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru.

29. Dywedodd un ymatebydd y dylid gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Y Diwrnod Perthnasol ar gyfer Newid Rhestrau) 1992, i adlewyrchu'r newidiadau yn y broses. Heb y diwygiad, byddai'r diwrnod perthnasol ar gyfer y sail i rai heriau yn ymwneud â newid perthnasol mewn amgylchiadau yn parhau i fod y diwrnod y derbynnir cynnig. Nododd yr ymatebydd, mewn perthynas â Lloegr, bod hyn wedi'i ddiwygio i'r diwrnod y derbynnir cadarnhad o wiriad, er mwyn sicrhau nad yw talwyr ardrethi yn colli'r hawl i wneud her o dan amgylchiadau penodol. Cynigiodd ddulliau amgen o ddiffinio'r diwrnod perthnasol, yr oedd o’r farn ei fod yn well.

30. Roedd un ymatebydd o'r farn nad yr Asiantaeth ei hun yn unig a ddylai gael barnu a yw cynnig yn anghyflawn ai peidio, gan nodi bod llwybr apelio ar gael ar gyfer cynigon yr ystyrir eu bod yn annilys o dan y trefniadau presennol.

31. Roedd dau o’r ymatebwyr o'r farn y byddai'r broses yn rhoi pwysau ychwanegol ar fusnesau bach. Soniodd un ymatebydd am gyfyngiadau ymarferol systemau'r Asiantaeth mewn perthynas â threthdalwyr lluosog sydd angen hawlio eiddo yn ystod oes rhestr brisio.

**C7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Rheoliadau drafft?**

32. Atebodd pump o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Croesawodd un ymatebydd yr eglurder a ddarperir gan set newydd o reoliadau, yn hytrach na gwneud diwygiadau i'r rheoliadau presennol.

33. Dywedodd y Tribiwnlys fod gofyn i gwmpas y mathau o apelau ardrethu annomestig sydd o fewn ei awdurdodaeth gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â’r ffaith nad yw’r Rheoliadau drafft yn cynnwys apelau yn erbyn gosod cosb.

34. Ym marn un ymatebydd, pan fo dyddiad cau hirach ar gyfer cyflwyno cynigion sy'n ymwneud â newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau yn cael ei ganiatáu gan y Rheoliadau drafft, nad oes estyniad cyfatebol i'r amser sydd ar gael i ailgyflwyno cynnig anghyflawn.

**C8. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**
**ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac**
**ii. ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

35. Atebodd dau o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roeddent o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg.

**C9. Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid yr opsiynau, yn eich barn chi, er mwyn:**

**i. cael effaith gadarnhaol neu gynyddu'r effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a**

**ii. pheidio â chael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

36. Atebodd un ymatebydd y cwestiwn hwn. Roedd o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg.

**C10. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.**

37. Atebodd pedwar o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ni atebodd un ymatebydd gwestiynau'r ymgynghoriad, ond yn hytrach fe roddodd sylwadau ehangach.

38. Fe wnaeth pedwar ymatebydd wneud neu ailadrodd sylwadau ar ymarferoldeb y system a'r baich gweinyddol ar dalwyr ardrethi, gan nodi meysydd lle maent yn ystyried bod angen gwelliannau i'r system sy'n sail i'r camau gwirio a herio.

39. Nododd dau ymatebydd fod newidiadau yn cael eu cynnig ar gyfer y dyfodol o ran y broses a weithredir yn Lloegr ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru oedi cyn mabwysiadu'r un drefn ar gyfer Cymru tan y rhestr ardrethu a lunnir ar ôl yr un fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2023.

## Y camau nesaf

40. Mae'r amheuon a fynegwyd gan rai o'r ymatebwyr ynghylch mabwysiadu'r broses apelio ddiwygiedig i Gymru yn cael eu cydnabod. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion a gafwyd i'n hymgynghoriad polisi blaenorol ar newidiadau i'r system apelio yng Nghymru gan roi'r penderfyniadau a arweiniodd at yr ymgynghoriad technegol hwn yng nghyd-destun ein cynlluniau ehangach ar gyfer diwygio trethi annomestig. Yn benodol, mae mabwysiadu'r broses a ategir gan blatfform digidol yr Asiantaeth yn alluogydd pwysig i ddiwygio pellach yn y dyfodol, gan gynnwys ailbrisiadau amlach.

41. Er na chyflwynodd yr Asiantaeth ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi trafod y Rheoliadau drafft gyda'r Asiantaeth a'r Tribiwnlys, er mwyn sicrhau y byddant yn galluogi'r ddau sefydliad i weithredu eu helfennau hwy o'r system yn unol â'r bwriad polisi.

42. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y Rheoliadau drafft, yn amodol ar rai newidiadau sy'n deillio o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac adborth manwl gan yr Asiantaeth a’r Tribiwnlys, gan gynnwys y rhai a nodir isod.

a. Cymerir bod gwiriad wedi’i gwblhau yn achos eiddo newydd, os yw wedi’i greu drwy ailgyfansoddi eiddo presennol yr oedd gwiriad eisoes wedi'i gwblhau ar ei gyfer.

b. Pan ganiateir amserlen hirach ar gyfer cyflwyno cynigion sy'n ymwneud â newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau, bydd yr amser sydd ar gael i ailgyflwyno cynnig anghyflawn yn cael ei ymestyn fel bod y terfynau amser yn cyd-fynd.

c. Cynhwysir y darpariaethau rheoli apelau ehangach y gofynnir amdanynt gan y Tribiwnlys, i'w alluogi i nodi sut y bydd yn rheoli elfennau o'r broses apelio nad ydynt yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau. Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â thrin tystiolaeth a chyflwyniadau gan y Tribiwnlys hefyd yn cael eu diweddaru i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r newidiadau ehangach.

d. Fe’i gwneir yn eglur mai Llywydd y Tribiwnlys fydd yn penderfynu a fydd apelau hwyr yn cael eu hystyried.

e. Bydd diwygiad canlyniadol yn cael ei wneud i Reoliadau Ardrethi Annomestig (Y Diwrnod Perthnasol ar gyfer Newid Rhestrau) 1992, fel bod y diwrnod perthnasol ar gyfer seiliau rhai heriau sy'n ymwneud â newid perthnasol mewn amgylchiadau yn cael ei gymryd fel y diwrnod y derbynnir cadarnhad o wiriad, yn hytrach na'r diwrnod y derbynnir cynnig.

43. Bydd y Rheoliadau drafft yn cael eu gosod maes o law ac, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, byddant yn dod i rym o 1 Ebrill 2023.

## Atodiad A: Rhestr o’r ymatebwyr

Roedd 17 o’r ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw. Mae'r saith ymatebydd arall fel a ganlyn.

Grŵp Altus
Ffederasiwn y Busnesau Bach
GL Hearn
Jones Lang LaSalle
Cymdeithas y Syrfewyr Ardrethu
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Tribiwnlys Prisio Cymru